

# Ysgol Gynradd Llandegfan



## *Polisi Iaith*

Cytunwyd gan Staff: Tachwedd 2017  
Mabwysiadwyd gan y Llywodraethwyr: Rhagfyr 2017  
Adolygiad nesaf: Rhagfyr 2019

### Arwyddwyd

Cadeirydd y Llywodraethwyr:

---

Pennaeth:

---

## **Polisi Iaith Gymraeg mewn ysgolion**

Mae Awdurdod Addysg Môn yn gweithredu polisi dwyieithog trwy holl ysgolion y Sir.

### **Amcanion Cyffredinol**

Yr amcan yw datblygu gallu disgyblion a myfyrwyr y Sir i fod yn hyderus ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Mae holl sefydliadau addysg y Sir yn adlewyrchu ac atgyfnerthu'r polisi iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeilio yn ogystal ag yn eu darpariaeth academaidd.

### **Amcanion Penodol**

#### **Addysg Feithrin**

Sicrhau, trwy ddarpariaeth a threfniadaeth feithrin bwrpasol a sensitif, y rhoddir i bob plentyn sylfaen gadarn yn y Gymraeg er mwyn ei alluogi i gyrraedd y nod o ddwyieithrwydd llawn maes o law.

#### **Babanod**

Adeiladu ar y sylfeini a osodwyd i'r Gymraeg drwy addysg feithrin, cadarnhau a datblygu mamiaith y plentyn o ddysgwyr Cymraeg ac ymestyn gafael y plentyn o gartref Cymraeg ar y Saesneg.

#### **Iau**

Cadarnhau a datblygu Cymraeg a Saesneg pob plentyn yn eu holl agweddau goddefol a gweithredol er mwyn sicrhau ei fod yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'n rhwydd ac yn hyderus yn y ddwy iaith pan fo'n trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. (Gwneir darpariaeth arbennig ar gyfer hwyrddyfodiaid).

#### **Uwchradd**

##### **Cymraeg a Saesneg**

Sicrhau fod pob disgybl yn yr ysgolion uwchradd yn astudio'r Gymraeg a'r Saesneg fel pynciau hyd at ddiwedd blwyddyn 11 a bod pob disgybl sydd â'r gallu angenrheidiol i wneud hynny yn sefyll arholiadau allanol priodol yn y ddau bwnc.

##### **Cyfrwng Dysgu**

Bydd pob disgybl yn defnyddio'r ddwy iaith yn gyfrwng dysgu i amrywiol raddau yn unol â gofynion pob unigolyn er mwyn sicrhau dilyniant i addysg ddwyieithog yr ysgolion cynradd.

Sicrhau fod modd i ddisgyblion sefyll arholiadau allanol trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg neu'n ddwyieithog yn ôl natur ieithyddol y dysgu yn y gwahanol bynciau. (Gwneir darpariaeth arbennig ar gyfer hwyrddyfodiaid).

##### **Addysg Arbennig**

Yn achos disgyblion ag anawsterau dysgu dwys rhoddir hawl i Bennaeth, mewn ymgynghoriad â'r Awdurdod Lleol, roi ystyriaeth unigol i bob achos. Gellir gweld y polisi cyflawn yn y Swyddfa Addysg a'r Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac mae cyfeiriadau at bolisiau ysgolion unigol ar gael yn Llawlyfr yr Ysgol.

## **Welsh Language Policy in schools**

The Authority operates a bilingual policy in all schools within the county.

### **General Aims**

The aim is to develop the ability of pupils and students within the county to be confidently bilingual in order that they can be full members of the bilingual society of which they are part. All educational establishments within the county reflect and reinforce the language policy in their administration, their social life and pastoral arrangements as well as their academic provision.

### **Specific Aims**

#### **Nursery Education**

To ensure, through sensitively structured provision and organisation, that each child receives a firm foundation in Welsh in order to enable him/her in due course to attain the aim of full bilingualism.

#### **Infants**

To build on the Welsh Language foundations laid through nursery education, to consolidate and develop the mother tongue of children who are Welsh learners and extend the child from a Welsh speaking home's competence in English.

#### **Junior**

To consolidate and develop each child's Welsh and English capabilities in all aspects, both active and receptive, so as to ensure that he/she can speak, read and write fluently and confidently in both languages on transferring to the secondary school. (Special provision will be made for junior latecomers).

#### **Secondary**

##### **Welsh and English**

To ensure that each pupil in the secondary school studies Welsh and English as subjects up to the end of year 11, and that all pupils who have the necessary capability to do so sit appropriate external examinations in both subjects.

##### **The Medium of Instruction**

Each pupil uses both languages as a medium of learning in varying degrees according to the needs of each individual, in order to ensure progression of bilingual education from the primary schools.

To ensure that pupils are able to sit external examinations in Welsh or English or bilingually according to the linguistic nature of the teaching in the various subjects. (Special provision will be made for latecomers).

##### **Special Education**

In the case of pupils with severe learning difficulties, the Headteacher in consultation with the Local Authority is given permission to consider each case individually. The complete policy can be seen in the education office and Public Libraries and there are references to individual school policies in their School Handbook.

